# Y BIGWN

CYF. 30 RHIF 9 IONAWR 2019 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

## Côr Dinbych yn dathlu 30 oed



Côr Meibion Dinbych yn dathlu 30 mlynedd gyda chyngerdd yn y Gadeirlan, Llanelwy (mwy ar dudalen 2)



Cymdeithas Gorawl Dinbych a'r Cylch yn eu Cyngerdd olaf yn Neuadd y Dref, Dinbych (mwy ar dudalen 2 a 16)



Parti Ysgol Twm o'r Nant yn canu carolau cyn y Nadolig tu allan i Neuadd y Dref, Dinbych

**Mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn erbyn Dydd Gwener, Ionawr 19 - Ar Werth Chwefror 3, 2019**



Clwyd yn cyflwyno



Is-Lywydd Medwyn Jones,



Wendy yn cyflwyno blodau



Beryl Lloyd Roberts, Arweinydd Cymdeithas Gorawl Dinbych a'r Cylch



Ann Davies, arweinydd Côr Cytgan Clwyd



Unawdydd Steffan Rhys



Wrth y drws - Eric Hughes,Bryn Evans ac Emyr Thomas



Arwyn Roberts yn arwain Côr Mebion Dinbych



Is-Lywydd, Mark Young



Cyfeilydd - Tim Stuart,unawdydd - Owain John, Llefarydd - Haf Evans, arweinyddes - Beryl Lloyd Roberts ac unawdydd Aled Wyn, Noson Gorawl Dinbych



## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones
01745 812214
russelljones9
@talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
Berwyn Roberts (812672)
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Catrin Warren (814675)
Ceredig Gwynn (815701)
Ruth Williams (812822)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Ariennir gan
Llywodraeth Cymru

# Gair gan y Golygydd

Cyn y Nadolig cyhoeddodd Cymdeithas Ystadegau Frenhinol "Ystadegau'r flwyddyn, 2018". Mae ystadegau yn cael eu henwebu a phanel o arbenigwyr yn penderfynu y rhai mwyaf diddorol a pherthnasol. Mae enillydd y wobr genedlaethol a rhyngwladol eleni yn ymwneud â'r amgylchedd ac yn faterion sydd yn effeithio ni'n gynnil mewn bywyd pob dydd. 27.8% ydi ystadegyn y Deyrnas Unedig, sef y canran o holl drydan y DU gynhyrchwyd gan ynni'r haul, a hyn ar Fehefin $30^{ain}$ llynedd. Beth sydd mor arbennig am hyn? Wel, mae'n debyg, mai dyma'r unig dro roedd egni'r haul yn cael ei harnesu i gynhyrchu mwy o drydan na hyn oedd yn cael ei greu gan nwy sydd y fel arfer ar frig y rhestr. Ar ddiwrnod llwydaidd o aeaf mae'r dyddiau hir, braf hynny'n teimlo'n ddiarth. Gyda llaw, i ni yma yn Nyffryn Clwyd sy'n gweld melinau gwynt ar Foel Hiraethog ac ar y môr i'r gogledd, cyfartaledd o tua 20% o drydan sy'n cael ei gynhyrchu gan wynt.

Yr ystadegyn rhyngwladol am 2018 oedd 90.5%, sef faint o blastig yn y byd sydd erioed wedi ei ail-gylchu - hynny ydi dim ond 9% o blastig a gynhyrchwyd erioed, maen nhw'n amcangyfrif, sydd yn cael ei ail-gylchu. Mae canran fawr yn cael ei gladdu, a thros 10 y cant yn cael ei losgi. Yn ddiweddar cyhoeddodd Cyngor Sir Ddinbych eu bod am gasglu eitemau fel plastig, papur a gwydr yn wythnosol er mwyn cyrraedd nod Llywodraeth Cymru o ailgylchu 70% o'n gwastraff (ar hyn o bryd mae 64% o wastraff y sir yn cael ei ailgylchu). Nid dyma oedd pennawd yr eitem ar y mater ar wefan Cymru Fyw chwaith. Ffocws negyddol y pennawd oedd bod casgliadau sbwriel (y bin du) yn mynd i fod yn fisol, nid bob yn ail wythnos fel y mae ar hyn o bryd. Mae Sir Conwy eisioes wed newid ac yn ôl y rhai y bu mi yn eu holi, nid yw'n drafferth mawr. Rhai o ddelweddau eiconig 2018 yw y rheini o 'r rhaglen Blue Planet II, lle mae pysgod ac anifeiliaid môr yn cael eu tagu gan blastig. Heb son am feddwl bod plant ein plant a'u llinach nhw yn mynd i fod yn gyfrifol am ein sbwriel ni unai mewn tomen neu wedi ei gladdu dan ddaear yn rhywle. Os ydi hyn yn ein hannog i feddwl dwywaith cyn taflu plastig i'r bin du yn lle'r bin glas da o beth debyg.

..............................

Oherwydd cyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd mae'r gyfrol yma ychydig yn ddiweddar ond diolch i holl gyfranwyr Y Bigwn a phawb fu'n helpu y mis hwn.

Catrin

## BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

Mrs Rhiannon Rogers
£ 10.00



# Y Capeli

## Capel Brwcws

Pnawn Sul, Tachwedd 18fed cafwyd Oedfa'r Teulu a Chymun dan ofal ein gweinidog, y Parch. Andras Iago. Braf oedd gweld cynifer o blant yn bresennol. Diolch i Lis Edwards a Carolyn Thomas am baratoi paned i bawb ar ôl y gwasanaeth.

Diolch hefyd i Lis Edwards am fynd a bocsys T4U i'r ganolfan yn Llanelwy.

Oherwydd bod y capel yn cael ei adnewyddu ni fu gwasanaethau y ddau Sul canlynol.

Bore Sul, Rhagfyr y 9fed , Rhian Cattell, Cari a George fu yn gyfrifol am agor yr Ysgol Sul gyda hanes yr Adfent. Oedfa Gymun dan ofal ein gweinidog, y Parch. Andras Iago a gawson ni yn y prynhawn. Carolyn Thomas oedd wrth yr offeryn.

## Capel Y Fron

Yn ystod y mis rydym wedi cael gwasanaeth ein gweinidog, y Parch. Andras Iago gydag Oedfa Gymun, Y Parch Bernard Thomas a'r Parch Nesta Davies. Rydym yn cydymdeimlo â Carys, Helen ac i Mrs Magi Jones a'r teulu yn eu profedigaeth. Bu Mrs Eirwen Pierce farw bore Llun, Rhagfyr 3ydd yng Nghartref Gofal Preswylfa, y Rhyl. Yr oedd Eirwen yn aelod ffyddlon ac er bod ei golwg yn pallu fe wnaeth bob ymdrech i ddod i'r gwasanaethau cyn ymgartrefu yn yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur ac yna Cartref Gofal Preswylfa.

## Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws

Fe gawson orig ddifyr iawn Nos Fercher, Tachwedd 21ain pryd y cawsom hanes Gwaith Iwan Edwards gyda Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Mae'r



Iwan Edwards

Ymddiriedolaeth yn rheoli 35 o warchodfeydd natur. Maent yn ymweld ag ysgolion i egluro am fyd natur i'r disgyblion. Roedd Iwan yn ein hargymell i ymweld â mynwentydd lle mae erwau o warchodfeydd natur annisgwyl a llawer o flodau gwyllt wedi hadu yno. Carys Jones oedd yn gyfrifol am y rhan ddefosiynol ac Eiri Jones oedd yn cyfeilio. Gwenda Owens, Pamela Lloyd ac Eiry Jones fu'n gyfrifol am y baned a Wendy Jones dalodd y diolchiadau.

**RHYBUDD GDPR**

Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.

**Gofynnwn i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod:-**

wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn**

wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn**.

Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.

**Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r Bigwn, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:**

Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/ lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **YBigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gyda hyn

## Dyddiadur

**Ionawr 16eg.**
Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws/ Cymdeithas y Chwiorydd

Sgwrs gan Jean Gwynn: 'Hanes y Parlwr Du.'

**Chwefror 2il am 7:30**
ynTheatr Twm o'r Nant. Bryn Fôn yn lansio ei CD Newydd. Tocynnau £15 arwerth yn Siop Clwyd, Menter Iaith (812822) neu Gaynor Morgan Rees (812349).

## Y CAPEL MAWR A SEION

Gyda thristwch y derbyniwyd y newydd am farwolaeth Dr. Gwyn Thomas ar Ragfyr 7fed.
Cafodd ei fagu yn yr eglwys a bu'n aelod yn Y Capel Mawr ar hyd ei oes. Yn feddyg teulu adnabyddus yn y dref a'r cyffiniau, bu'n gymeriad blaenllaw mewn sawl cymdeithas leol.
Bu'i angladd ddydd Iau, Rhagfyr 20fed, gyda gwasanaeth cyhoeddus yn Y Capel Mawr a thraddodiant yn dilyn ym mynwent y dref.
Cydymdeimlwn â'r meibion, Rhys ac Owen, ac Elin y ferch, a'u teuluoedd yn eu galar.
Gweinyddwyd y Cymun Sanctaidd gan ein Bugail, Y Parch. Ddr. Andras Iago, yn yr oedfa foreol ar Dachwedd 18fed. Croesawyd ef gan Mrs Cheryl Williams, llywydd y mis. Cawsom gwmni'r Parch. Bernard Thomas, Trefnant, nos Sul, Tachwedd 25ain.
Croesawyd Y Parch. Nesta Davies atom fore Sul, Rhagfyr 2il, gan Mrs Angharad Rhys, llywydd y mis. Troi'n sylw at y broffwydoliaeth yn y ddeugeinfed bennod o lyfr Eseia wnaeth y Gweinidog yn yr oedfa hwyrol ar Ragfyr 9fed. Y Parch. Glyn Thomas, Abergele oedd yn arwain y gwasanaeth fore Sul, Rhagfyr 16eg ac i gloi cyfnod yr adfent bu 'Dathliad ar Lafar a Chân' gyda the bach i ddilyn. Nerys Ann Roberts fu'n trefnu ac yn arwain y gwasanaeth gyda help y plant a rhai o'r aelodau. Dorothy Rogers a Catrin Warren fu'n cyfeilio yn y gwasanaethau.
Bu eglwysi'r fro yn dathlu fore 'Dolig yn Y Capel Mawr gyda' gweinidog yn arwain a Dorothy Rogers yn cyfeilio.

# Dathlu'r Nadolig yn Y Capel Mawr



Nerys Ann



Parch Andras Iago a Stan Lyall



Lilian Jones a Huw



Gaynor Morgan  Rees a Dyfed



Angharad Rhys



Owain, Sion a Cynan



Tom a  Doris  Williams a Freda Evans



Mair Jones,Dyfan a Jac Roberts



Carys Jones a Mair Davies



Lisa a Iolo Rhys ac Alun Jones



Ann, Bethan Mair, Hari Ifor ac Ifor John



Kitty Williams, Dorothy a Ronwy Rogers

## Aelwyd y Capel Mawr

Cyfarfod mis Tachwedd Dechreuwyd y cyfarfod gan Tom Williams yn trafod a darllen soned R. W. Parry i William Williams Pantycelyn. Rhoddodd y llywydd Helena Williams groeso cynnes i bawb ac i'r gŵr gwadd Hari Hughes, Y Rhyl oedd wedi dod atom i roi sgwrs. Mae Mr Hughes wedi bod yn gweithio i'r Gwasanaeth Tân. Ond am ardal y Bermo y daeth i roi sgwrs y tro yma wedi darllen llyfr Aled Lewis Evans "Llwybrau Llonyddwch". Diddorol oedd clywed am ddechreuad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol pan roddodd Fanny Talbot "Dinas Olau" yn Bermo iddynt ym 1895 gan wybod y byddai yn cael ei warchod am byth. Soniodd hefyd am Gors y Gedol, y Cei a Ty'n Ffynnon cartre Fanny Talbot. Cawsom hanes llawer o lefydd eraill yn Bermo, gymaint o lefydd hanesyddol a diddorol yn y gornel hon o Gymru.

Diolchwyd iddo gan Ronwy Rogers ac i Carys Jones a Dorothy Bartley am y baned.

Buom yn meddwl am y cleifion gan ddymuno'r gorau iddynt. Cydymdeimlwyd â Lilian Jones ac Arwel wedi colli y Parchedig George Emlyn Jones yn ddiweddar.

Mis Rhagfyr croesawyd pawb gan Helena Williams, a chroeso arbennig i'r gŵr gwadd y Parchedig Ifor ab Gwilym, Abergele. Cawsom brynhawn arbennig o ddifyr yn gwrando ar ei sgwrs ar "Naws y Nadolig". Roedd wedi dod a darlleniadau Nadoligaidd diddorol iawn. Clywsom gerdd ei frawd Gwynn ap Gwilym "Ymsom Joseff" oedd yn rhoi golwg wahanol i ni o stori'r geni. Yna ei ail ddewis oedd detholiad o nofel Islwyn Ffowc Ellis "Yn ôl I Leifior" sef hanes Greta un noswyl Nadolig. Myfyrdod ar Nadolig ym 1806 gan Gruffudd John Roberts, Ficer Conwy pan foddwyd chwech o ddynion wrth groesi'r afon Conwy mewn cwch cyn i'r bont gael ei adeiladu, a'r neges fawr "llawenydd pont yw llawenydd y Nadolig".

A'r stori olaf ddarllenodd oedd un o straeon T. Llew Jones, " Yr Hen Longwr", stori am noswyl Nadolig eto yn gyrru dipyn o ddŵr oer lawr ein cefnau at y diwedd gyda'r tro yn ei chynffon.

Detholiad da iawn a gwahanol, wedi eu darllen yn berffaith gan ein gŵr gwadd.

Diolchwyd iddo gan y Parch Nesta Davies, a diolch i bawb gyfrannodd at y bwyd a'r gweini. Braf iawn oedd cael sgwrsio o gwmpas y byrddau.

J. H. & B. JONES
CIGYDD TEULU
Gwerthu PYSGOD hefyd
* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell
92 Stryd y Dyffryn, Dinbych
01745 812132



## Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws




Meirwen a John Hughes

'Taith i Ganada' oedd testun sgwrs a sleidiau gwesteion mis Rhagfyr, John a Meirwen Hughes, Abergele. Hedfanodd y ddau ar daith o dros 3,000 o filltiroedd o Heathrow i Montreal, dinas fwyaf talaith Quebec. Yno yn Montreal gwelsant Stadiwm Olympaidd 1976, adeilad gosgeiddig y basilica, trac y Grand Prix a Chanolfan Maple Syrup sy'n ddiwydiant mawr yn Quebec.

Yna i brifddinas y dalaith, Quebec, sydd ar Afon St. Lawrence. Ffrangeg yw prif iaith Quebec lle mae'r gwesty, y Chateau Frontenac yn codi'n uchel iawn i'r awyr.

Rhaeadrau Niagra nesaf sy'n cynnwys tair rhaeadr i gyd ar y ffin rhwng Canada ac U.D.A. Bu John a Meirwen yn hedfan mewn hofrennydd uwchben y rhaeadrau ac yna mewn cwch – roedd y golygfeydd yn drawiadol!

Symud wedyn i'r gorllewin i dalaith Alberta ac i Calgari, dinas y rodeo ac aros yn nhref Banff gerllaw, gyda mynyddoedd y Rockies yn teyrnasu. Ym Mharc Cenedlaethol Banff mae rhewlifoedd a choedwigoedd ac anifeiliaid gwyllt fel yr arth ddu, yr arth frown, y blaidd a'r elc. Roedd Llyn Louise yn werth ei weld hefyd. Clywsom gan John a Meirwen am y parch a roddir bellach i lwyth y Cree sef brodorion cynhenid Alberta.

Mae dinas brysur Vancouver yn nhalaith British Columbia ar arfordir gorllewinol Canada ac yno y daeth y daith i ben i'r ddau o Abergele

ond rhaid oedd ymweld â Pharc Stanley yn Vancouver a chroesi i Ynys Vancouver i fwynhau harddwch Gerddi Butchart.

Cyflwynodd John y sgwrs mewn ffordd mor ddifyr ac hamddenol a chawsom y pleser o fwynhau lluniau Meirwen ar y sgrîn.

Cyflwynwyd a diolchwyd gan Richard Snelson.

Braf oedd cael sylwadau gan aelodau'r gynulleidfa oedd wedi bod ar wyliau yng Nghanada. Cafwyd noson addysgiadol a diddorol iawn.

# Y Cymdeithasau

## Cymdeithas Caledfryn

Gwestai mis Tachwedd oedd Ifor John Jones sy'n gyfarwydd inni i gyd gan ei fod ef ag Ann yn byw yn ein mysg yn Ninbych ond yn y Plaen ger Llewenni y treuliodd ei ddyddiau cynnar gan fynychu Ysgol Gynradd Bodfari ac yna Ysgol Ramadeg Dinbych. Graddiodd ym Mhrifysgol Salford ac yna dilyn Cwrs Addysg yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor. Yno y daeth yn rhugl yn y Gymraeg.

Yn 1981 symudodd Ann ac yntau i Sambia i ddysgu ac er dychwelyd i Gymru ar ôl tair blynedd, daeth yr awydd eto yn 1988 i fynd dramor ac fe symudodd y teulu i Ynys Papwa Gini Newydd fel Dirprwy Bennaeth Ysgol Uwchradd Ryngwladol Lae ac ar ôl pum mis fe'i penodwyd yn bennaeth.

Yn 1998 daeth Ifor yn Ddirprwy Bennaeth a Phennaeth Mathemateg yn Ysgol Santes Ffraid yn Ninbych ond wedi wyth mlynedd yno, dychwelodd Ann ac yntau i Papwa Gini Newydd ble cafodd Ifor swydd Pennaeth Ysgol Ryngwladol Kimbe ar Ynys New Britain sy'n rhan o Ynys Papwa Gini Newydd. Mae'r ynys i'r gogledd ddwyrain o Awstralia.

Byw a gweithio yno oedd testun ei sgwrs inni yn ein cyfarfod a defnyddiodd sleidiau a chlipiau fideo yn effeithiol i ddweud ei hanes.

Mae'r ysgol mewn ardal o harddwch naturiol arbennig ac yn cynnwys fforestydd, afonydd, llosg fynydd a ffynhonnau poeth. Hefyd roedd gardd Ann ac Ifor ar yr ynys yn llawn o ffrwythau megis mango, afal pîn ac ymysg y bywyd gwyllt roedd madfallod, aderyn yr haul a glas y dorlan.

Roedd 330 o ddisgyblion o 3 i 18 oed a 19 o athrawon gan gynnwys 45 o staff eraill yn Ysgol Ryngwladol Kimbe gyda 95% o'r disgyblion o Papwa Gini Newydd a 5% o wledydd eraill yn cynnwys Ynysoedd y Philipinau. Mae 4 tymor o 10 wythnos i'r flwyddyn ysgol a Saesneg yw cyfrwng y dysgu.

Mae Ifor yn cofio'n dda yr holl sioeau cerdd, diwrnod diwylliannol yr ynys i ddathlu annibyniaeth ym mis Medi. Mae ganddo atgofion melys o'r seremoni graddio yn 2015 – rhain oedd y disgyblion roedd Ann yn eu dysgu pan aeth y ddau i Kimbe gyntaf ac Ifor oedd yn dysgu Mathemateg iddynt yn y flwyddyn olaf. Y rhain hefyd oedd y disgyblion cyntaf i dderbyn tystysgrif ar ddiwedd eu cyfnod yn Ysgol Ryngwladol Kimbe gan Dalaith Prifddinas Awstralia (Canberra) yn ogystal â llywodraeth Papwa Gini Newydd.

Roedd ymweliad â thref Rabaul ar yr ynys i ddysgu mwy am yr Ail Ryfel Byd ac â'r ysbyty leol yn rhan o ddatblygu ymwybyddiaeth gymunedol y disgyblion.

Prif ddiwydiant yr ynys ydi cynhyrchu palmwydd olew ac mae cysylltiad rhwng yr ysgol a'r cwmni N.B.P.O.Ltd.

Difyr, ffraeth ac addysgiadol oedd sgwrs Ifor John gyda'i sleidiau a'r clipiau fideo.

Llywydd y noson oedd Gwyrfai Jones ac ef a dalodd y diolchiadau yn dilyn cwestiynau diddorol gan rai o'r aelodau.

Fydd yna ymweliad arall dramor i Ann ac Ifor,'sgwn i?




Gwirfair Jones ac Ifor John




## Glyn Evans Autoclinic
## Atgyweirio Ceir

**Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg

01745 815141

repairs@evansautoclinic.com

# Menter Iaith Sir Ddinbych




Sion Emyr yn perfformio Hedd Wyn

Cafwyd cyfnod prysur yn Ninbych yn coffau canmlwyddiant y Cadoediad ym mis Tachwedd, ac fel rhan o'r rhaglen o ddigwyddiadau, a gefnogwyd gan Grŵp Digwyddiadau Dinbych, oedd dau berfformiad o Hedd Wyn gan yr actor Sion Emyr, cwmni Mewn Cymeriad, i blant Ysgol Frongoch.

Trefnwyd y perfformiadau gan Fenter Iaith Sir Ddinbych, er mwyn cyflwyno hanes Cymru ac ymwybyddiaeth iaith i blant cynradd. Perfformiwyd y sioe yn Gymraeg yn Ninbych yn ystod yr ŵyl Ganol Haf, ond meddai Ruth Williams, Prif Swyddog Menter Iaith Sir Ddinbych: "mae'n hynod bwysig bod plant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd yn cael y cyfle i ddysgu am hanes Cymru o safbwynt Cymreig a Chymraeg, ac mae gan gwmni Mewn Cymeriad ddawn arbennig wrth wneud hyn. Roedd y plant wrth eu boddau yn adrodd rhan o gerdd Hedd Wyn yn Gymraeg, ac yn dysgu geiriau a dywediadau eraill Cymraeg."

Ychwanegodd, "Diolch arbennig i holl blant a staff Ysgol Frongoch, Dinbych am eu croeso. A diolch hefyd i Faer Dinbych a Grwp Digwyddiadau am eu cefnogaeth." Diweddglo teilwng iawn i wythnosau o gofio'r Rhyfel Mawr yn Ninbych.




Maer, Y Cynghorydd Catherine Jones a Sion Emyr




# Lansio llyfr hanes lleol newydd



Catherine Howarth,Rona Aldrich Aelodau o'r Gymdeithas, Y Parch E Bernard Thomas, Cadeirydd Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog & Llangwyfan,Olga Evans o Landyrnog a lansiodd y llyfryn swyddogol a Julia Hughes, Is-gadeirydd Cymdeithas Hanes

Dydd Sul, yr 11eg o Dachwedd (Dydd y Cadoediad) fe ddaeth dros 100 o bobl i Neuadd y Pentref, Llandyrnog i lansio'r llyfr diweddaraf i'w gyhoeddi gan Gymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan, *Llandyrnog a Llangwyfan Y Rhyfel Mawr 1914 - 18 The Great War.*
Fe gynhwysir llawer o luniau lliw a du a gwyn yn y llyfr sy'n gwbl ddwyieithog ac y mae'n adrodd hanes y 21 o ddynion a bechgyn a oedd a chysylltiad â'r pentrefi. Mae eu henwau ar y gofeb wrth Eglwys Sant Tyrnog, Llandyrnog a buont farw o ganlyniad i'r Rhyfel Mawr. Fe welir ynddo hefyd ddarlun o fywyd yn yr ardal yn ystod y cyfnod hwnnw ac y mae'n cynnwys mapiau o'r mannau hynny oedd yn gysylltiedig â'r dynion yn ogystal â chynnig trosolwg o hanes y Rhyfel.
Darparwyd lluniaeth ysgafn gan aelodau'r Gymdeithas Hanes Lleol, Eglwys Sant Tyrnog a Chapel y Dyffryn. Yna, mewn neuadd oedd yn llawn awyrgylch, cyflwynodd Cadeirydd y Gymdeithas, Mr E.Bernard Thomas, air o ddiolch i bawb a gyfrannodd at gynhyrchu'r llyfr. Bu Rona Aldrich yn egluro cefndir cynhyrchu'r llyfr a darllenwyd rhannau ohono gan Julia Hughes a Catherine Howarth er mwyn cynnig blas o'i gynnwys. Roedd Julia a Rona yn gyfrifol hefyd am olygu'r llyfr.
Cafodd y llyfr ei lansio'n swyddogol gan Mrs Olga Evans o Landyrnog. Fe gofiai Olga am effeithiau'r Rhyfel ar eu 'teulu bach' pan fu farw ei hewythr (John Foulkes) yn yr Aifft ac er bod ei thad wedi dychwelyd adref o'r rhyfel yn ddianaf, fe ddioddefodd mewn ffyrdd anuniongyrchol am weddill ei oes.

Gellir prynu'r llyfr, am bris o £14, o Siop y Pentref, Llandyrnog, Siop Elfair, Rhuthun, Siop Clwyd, Dinbych a llyfrgelloedd Dinbych a Rhuthun neu drwy e-bostio llangwyfanhistory@hotmail.com .

**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

DBP
Home Improvements N.Wales

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 815555**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

# Ysgol Twm o'r Nant

Mae hi wedi bod yn fwrlwm o brysurdeb yn Ysgol Twm o'r Nant yn ystod mis Rhagfyr efo pob Uned yn paratoi ar gyfer y Nadolig.



Dyma rai o blant y Dosbarth Meithrin cyn eu perfformiad.



Uned Dan 7
Cafwyd hanner tymor prysur iawn yn yr Uned dan 7. Cafwyd perfformiadau gwych o Sioe Nadolig y 'Seren a Syrthiodd' gan y plant. Gweithiodd pawb yn galed i ddysgu eu geiriau, chwarae offerynnau a chanu'r caneuon, da iawn blant!







**Yr Uned dan 5**

Dyma rai lluniau o Sioe Nadolig yr Uned dan 5.
Sali Mali (Mari), Ben Dant (Osian), Jac y Jwc (Guto) a Dona Direidi (Beca) wrthi yn brysur yn chwilio am rywun i'w helpu i roi'r seren yn ôl yn yr awyr.



Diolch i Sam Tân (Noa) am achub y dydd efo'i ysgol hir. Roedd Postmon Pat (Ted) yn rhy brysur i helpu!



Braf hefyd oedd cael gwrando ar gerddoriaeth Holst a gofyn i'r plant dynnu lluniau o beth oedd y gerddoriaeth yn ei olygu iddynt.

Pantolig Unedau dan 9 ac 11
Ym mlynyddoedd 3,4,5 a 6 perfformiwyd Pantomeim gwerthchweil eleni yn Neuadd Y Dref. Roedd y plant i gyd wrth eu boddau yn morio canu a chafwyd actio arbennig. Braf oedd gweld stori Sindarella a stori'r geni yn cael eu cyfuno a'i gilydd i greu Pantolig arbennig





Casglu arian i Gronfa Alaw
Cafwyd gwledd o gacennau yn yr ystafell staff gan Mrs Mair Roberts. Casglwyd arian i Gronfa Alaw wedi ei damwain. Dymunwn fel ysgol wellhad buan iddi.



Ffair yr ysgol.



Ffair yr ysgol.
Cafwyd ffair lwyddiannus iawn a gafodd ei drefnu gan aelodau'r gymdeithas a rhieni. Roedd sawl stondin gan yr ysgol a’r cyhoedd. A chafwyd ymweliad gan ddyn arbennig iawn. Diolch Siôn Corn am alw. Diolch i bawb a fu’n brysur yn trefnu.







CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**

- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**

- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnîau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
**Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned**
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall



Staff yn gadael
Pob hwyl i Miss Ffion Hughes, sydd wedi bod hefo ni am dymor, yn ei swydd newydd fel athrawes yn ysgol Frongoch. Byddwn yn croesawu Mr Steffan Parry atom ar ôl y Nadolig.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | | | 1 | | | | | |
| | | 8 | 3 | 6 | | | | 5 |
| | | | 4 | | 8 | 9 | 6 | |
| | | | 6 | | 3 | | 9 | 7 |
| | | 6 | | 4 | | 3 | | |
| 9 | 1 | | 8 | | 2 | | | 6 |
| | 3 | 1 | 2 | | 4 | | | 9 |
| 8 | | | | 3 | 6 | 7 | | |
| | | | | | 9 | | | 8 |

Gwobr arbennig i'n cogyddes.
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Jane Jones, cogyddes yr ysgol, ar ennill gwobr gan asiantaeth 'Laca' o gael treulio amser hefo'r cogydd enwog Bryan Webb o westy Tyddyn Llan. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr o gael blasu ambell beth gwahanol yn yr ysgol ar ôl ei phrofiad. Tybed os bydd cranc ar fwydlen Ysgol Twm o'r Nant yn y flwyddyn newydd?
Rydym yn dymuno yn dda i Mrs Jones hefyd ym mis Ionawr pan fydd hi yn cystadlu yng nghystadleuaeth cogydd y flwyddyn i lawr yn Weston Super Mare.



Blwyddyn Newydd Dda i bawb o Ysgol Twm o'r Nant.


**CEIR CLWYDIAN**

Os ydych yn chwilio am
*brisiau cystadleuol
* dewis heb ei ail
* gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol

yna, galwch i'n gweld ar-
FFORDD RHYL, DINBYCH
neu ffoniwch
01745 816720 / 07900555009



Plaid Cymru | Party of Wales

**Llyr Gruffydd AC**



Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:

Llyr Gruffydd AC
Canolfan Fusnes Birch House
Hen Lôn Parcwr
Rhuthun
LL15 1HN
01824 703593
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru

**Yn gweithio dros y gogledd**

@LlyrGruffydd

**www.llyrgruffydd.cymru**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Bigwn!

Bu diwedd 2018 yn gyfnod prysur iawn i'r Amgueddfa. Bu Richard Vernon, gitarydd bas band roc 'The Mission', yn siarad am ei brofiadau o fywyd 'ar y lôn'. Cafodd ei fagu ar Ynys Môn a phrynodd gitar fas i'w hun gydag arian oedd wedi ei neilltuo ar gyfer rhywbeth arall. Ymunodd â'r byd cerddorol ar ddamwain bron ac mae wedi teithio i lawer o wahanol wledydd yn ystod ei yrfa. Disgrifiodd y teithiau 'o gwmpas y byd' a barai 80 diwrnod heb seibiant, a'r bywyd ar y bws oedd wedi cael ei addasu yn arbennig i'r band fyw ynddo. Soniodd am yr unigrwydd a'r iselder mae llawer o gerddorion yn dioddef ohonynt a'r angen wedyn i godi a pherfformio ar gyfer cynulleidfaoedd newydd.



'Rich' yn perffomio yn 2016.

**Ar Noson y Curadur,** bu David Crawford yn siarad am Thomas Edison y dyfeisiwr, 'Y Dyn fu bron â dyfeisio radio'. Pan oedd Edison yn gweithio ar brosiect gwella'r system delegraff i gwmni Western Union yn UDA, sylwodd fod gwreichion yn ymddangos mewn rhan o'r offer lle nad oedd yn disgwyl i hynny ddigwydd. Yn 1875, heb lawer o dystiolaeth, cyhoeddodd yn y 'New York Times' ei fod wedi darganfod grym newydd a enwodd 'The etheric force' – gellir gweld y papur newydd yn ein Hamgueddfa. Cafodd yr honiadau eu gwrthod gan y sefydliad gwyddonol ar y pryd, ond rhoddodd hyn gyfle i'r Cymro David Edward Hughes arbrofi ymhellach am ddwy flynedd. Yn hwyrach, profodd Heinrich Hertz fod honiadau Edison a David Edward Hughes yn gywir. Tonnau radio amledd uchel oedd y grym 'newydd' hwn a ddarganfuwyd. Ymhlith y llu o bethau eraill a ddyfeisiodd Edison oedd system radio i gysylltu llongau â'r tir. Gwerthodd y system i gwmni Marconi yn hwyrach.

Diolch i bawb a gefnogodd ein Bore Coffi Nadolig ar y cyd â Mind Dyffryn Clwyd a chymdeithas y Soroptimists. Codwyd dros £400 rhyngom.

Croeso i bawb i'r darlithiau nesaf sy'n cael eu cynnal yn yr Amgueddfa ar nos Wener am 7 o'r gloch.


Ionawr 18fed, Dr. Selwyn Williams yn siarad am 'Radio Digidol Cymunedol.

Chwefror 15fed, Tony Vine yn siarad am 'Daearyddiaeth, Daeareg a Gemfeini'.

Mawrth 15fed, bydd Siaradwyr o StudioMADE, yn cyflwyno Darlith Flynyddol David Edward Hughes ac yn siarad am 'Celf, Gwyddoniaeth a Thechnoleg'.

Ebrill 5ed, Christopher Lees, yn siarad am "Anelu at y Ddinas – yn dilyn hanes Swyddog Radio a Llong Almeinig o'r Rhyfel Byd Cyntaf".

Yn ogystal, bydd Noson Ffilm yn Theatr Twm o'r Nant ar Ionawr 25ain a Noson Gwis i'w threfnu.



Thomas Edison




Bagiau dathlu'r dengmlwyddiant sy ar werth am £4 yr un.



Medwyn yn cyflwyno'r Maer.



Eleri yn barod i werthu ei chardiau.






# CYFAMOD HEDD

Mam oedd organyddes Capel y Bedyddwyr yma yn Ninbych am flynyddoedd lawer a chan ei bod yn berchen ar harmoniwm fach, wrth iddi ymarfer cefais fy magu yn sŵn tonau'r emynau. Fy hoff emyn yw, 'Rho im yr hedd', o waith Elfed. Ffefryn Meurig Voyle oedd, 'Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw', gan Thomas Jones o Ddinbych, ac yn achos John Davies, y dôn Builth sy'n ei berswadio i enwi 'Rhagluniaeth fawr y Nef' gan David Charles. Barn O M Edwards oedd mai'r emyn, 'O tyn y gorchudd yn y mynydd hyn' gan Hugh Jones, Maes y Glasau, fu'n byw yn Stryd Henllan, Dinbych am gyfnod, yw'r emyn gorau yn yr iaith Gymraeg. Dewis cyfaill arall i mi yw 'Cyfamod Hedd, cyfamod cadarn Duw' gan Edward Jones, Maes y Plwm ac ar y dôn Navarre.

Ganwyd Edward Jones ar Fawrth 19eg, 1761 yn Nhan y Waen, Prion yn fab i John Jones, Bryn Lluarth ac Ann Williams, Rhyd y Cilgwyn. Bu'n trigo mewn amryw gartref - treuliodd flynyddoedd ei febyd ym Mryn y Gwynt Isaf ac wedyn ym Maes y Plwm, Prion, tyddyn oedd yn y caeau rhwng Peniel, Prion a Phont Ystrad ond sydd erbyn hyn wedi diflannu.


Beth ysgwn i yw tarddiad yr enw yma? Yr awgrym yw fod plwm yn cael ei gloddio yno ar un adeg, hwnnw erstalwm yn cael ei ddefnyddio i wneud piwter, bwledi, fframwaith ffenestri eglwys ac yn y blaen. Tybed a oes unrhyw dystiolaeth o'r diwydiant yn yr ardal? Hoffwn wybod.

Priododd Edward Jones ddwywaith. Y tro cyntaf efo Jane Pierce o Lanrhaeadr a'r ail waith â Margaret Roberts, Tŷ Mawr, Y Grîn, Dinbych. Cafodd bedwar o blant o'r briodas gyntaf a thri ar ddeg o'r ail!

O Faes y Plwm aeth i Gilcain i gadw ysgol. Yno bu farw ar Ragfyr 27ain, 1836 yn 75 mlwydd oed ac fe'i claddwyd ym mynwent Llanrhaeadr. Gerllaw'r llidiart cyfyd cofeb iddo.

Ychydig iawn o addysg ffurfiol oedd ar gael yn ystod plentyndod Edward Jones ond fe lwyddodd i dderbyn cyfnod byr o hyfforddiant gan y Parch David Lloyd, gweinidog ar y pryd gyda'r Annibynwyr yng nghapel Lôn Swan, yn Ninbych, gŵr a oedd yn arfer cyfansoddi emynau. Dysgodd y bachgen brydydda hefyd, a'r un pryd, dechreuodd fynychu oedfaon y Methodistiaid Calfinaidd yn y dref. Aeth i bobman i wrando ar bregethwyr amlwg y cyfnod, a dywedir y byddai'n wylo'n hidl yn rhai o'r cyfarfodydd hyn. Hoffai hefyd ymweld â thafarnau lle y byddai beirdd yr ardal yn arfer ymgynnull ac o ganlyniad daeth yn gyfaill agos â Twm o'r Nant. Gallai fwynhau gwyliau mabsant, a ffeiriau ac yn arbennig yr ymladd ceiliogod yn nhalwrn yr Hawk and Buckle ar Lôn Bostws. Doedd ymddygiad o'r fath yma ddim yn dderbyniol gan aelodau'r Hen Gorff, ond yn fuan iawn, yn ôl pob deall, wedi iddo ddarllen 'Taith y Pererin' gan John Bunyan, fe gafodd dröedigaeth.

Digwyddiad amlwg yn y broses yma oedd ei bresenoldeb annisgwyl yn y Seiat a gynhaliwyd yng nghartref Ann Parry, Bryn Mulan, Nos Fawrth y Pasg, 1787. Hi oedd prif golofn achos Methodistiaid yr ardal yn ei dydd a phan fu farw ym mis Tachwedd y flwyddyn honno, lluniodd Thomas Jones o Ddinbych, 'Marwnad ar Farwolaeth Ann Parry'. Ond nid dyna ei phrif hynodrwydd, fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Llanrhaeadr ac mae ei charreg fedd i'w gweld yno heddiw. Er ei chladdu yn y pridd, honnir na lygrodd ei chorff,




455

*Cadernid Cyfamod Duw.*

*mf* CYFAMOD hedd, cyfamod cadarn Duw
Ni syfl o'i le, nid ïe a nage yw:
Cyfamod gwir, ni chyfnewidir chwaith;
Er maint eu pla, (*cr.*) daw tyrfa i ben eu taith.

*mf* Cyfamod rhad, o drefniad Un yn Dri,
*cres.* Hen air y llw a droes yn elw i ni;
*f* Mae'n ddigon cry' i'n codi fyny'n fyw,
Ei rym o hyd yw holl gadernid Duw.

*f* Cyfamod cry'—pwy ato ddyry ddim?
'Dall byd na bedd wanhau ei ryfedd rym;
Diysgog yw hen arfaeth Duw o hyd:
Nid siglo mae, fel gweinion bethau'r byd. E. J.

a phan agorwyd y bedd yn 1830 ac eto yn 1836, cafwyd bod cyflwr ei chorff yn union fel y'i claddwyd yn 1787. Diddorol yw nodi mai englynion o waith Edward Jones sydd ar y garreg.

Ond yn ôl at hanes Maes y Plwm. Wedi iddo brofi ei hun yn aelod addas, penodwyd ef yn flaenor yng nghapel Prion ac ymhen amser yn yr un swydd yng nghapel Cilcain.

Yn sicr yr oedd yn fardd galluog ond ni adawodd ond ychydig o'i waith ar ei ôl. Hyd y gwn i, ni chystadlodd fwy nag unwaith mewn eisteddfod bwysig, a'r tro hwnnw enillodd y wobr gyntaf yn Eisteddfod y Trallwng, 1824 gan guro, ymhlith eraill, Robert Davies, Bardd Nantglyn. Ymddangosodd ei waith cyntaf , 'Hymnau ar amryw Destunau', a argraffwyd yma yn Ninbych yn 1810 a chan ei fod mor boblogaidd, ei adargraffu yn 1820 ac wedyn yn 1828. Barn Edward Jones ei hun am ei gyfansoddiadau barddol oedd nad oeddent yn werth eu hargraffu! Serch hynny, erbyn hyn cyfansoddi emynau oedd ei brif ddiddordeb, ac y mae nifer ohonynt yn dal i gael eu canu - 'Cyfamod Hedd' fel y soniwyd eisoes; 'Pob seraph pob sant', 'Mae llond y nefoedd, llond y byd', ac yn y blaen. Efallai nid oes ynddynt angerdd na dwyster teimlad Pant y Celyn ac Ann Griffiths, ond yn sicr mae ynddynt gryfder meddwl a sigl hyfryd y gynghanedd.

Bu farw Edward Jones yn 1836 a chyhoeddodd ei feibion, John a David, lawer o'i waith yn eu cyfrol goffa iddo yn 1839.

R M (Bobi) Owen

Morgeisi
CARTREF
Mortgages
**Cyngor Morgais Di-Ffi**
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio

Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol


Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk

**Atebion RHAGFYR 2018**

**Ar Draws :**
7. Asiant
9. Asteroid
10. Microdon
11. Gwefru
12. Petrol
13. Ailymuno
15. Corwynt
17. Analluog
20. Bacteria
22. Gwirio
23. Hafoty
25. Promenâd
26. Gleision
27. Epilio

**I Lawr :**
1. Caergrawnt
2. Atodol
3. Iawndal
4. Ategolyn
5. Ffrae
6. Niwron
8. Stileto
14. Melltigedig
16. Norwyaidd
18. Origami
19. Canpunt
21. Anadlu
22. Groser
24. Orig

# CROESAIR IONAWR 2019




**Ar Draws :**
1. Bod yn wastraffus
9. Pwysigion
10. Bardd o Sir Benfro
11. Sail
12. Sant â chysylltiad agos gyda Bangor
13. Diffuant
15. Un sy'n gofyn elusen
18. Cartref Hedd Wyn (2,6)
19. Gallu
22. Tynnu'n ôl neu ddianc
24. Tîm pel-droed o Ogledd Llundain
26. Brwydro
27. Llwyth Brythonig o dde-ddwyrain Cymru
28. Y gallu i drosgwlyddo trydan neu wres

**I Lawr :**
1. Ni ellir ei ganfod â'r llygad
2. Gwîn o Sbaen
3. Rhinwedd moesol
4. Ychwanegiad ar ddiwedd neges (2,6)
5. Diffyg swydd
6. Un sy'n hoff iawn o'i fwyd
7. Gyrru at y gelyn
8. Bwgan
14. Cynhaliwr
16. Gosodiad ee o gerddoriaeth
17. Yn torri tir newydd
18. Ceir hwn wrth gorddi hufen
20. Dyfais John Logie Baird
21. Cyfrifiadur bychan
23. Anodd
25. Yn y wlad hon mae Damascus

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

Trefnwyr Angladdau Annibynnol
R.W.Roberts a'i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
SAIF

# Gwell dau aderyn mewn llwyn nag yr un mewn llaw!

Na, fe wn i nad dyna'r dywediad cywir, ond y mae yna bobl a fyddai'n hapusach o'r hanner pe byddai o'n hynny.

Darllen erthygl yn y **Times** ydy'r cefndir i'r truth y tro hwn. Yn yr erthygl honno roedd yna academydd yn gwyntyllu'r syniad bod yna ddywediadau Saesneg sydd yn awgrymu mai pethau i'w lladd a'u bwyta ydy' anifeiliaid ac adar, megis yr un am ladd dau aderyn gydag un garreg. Roedd creulondeb tuag at anifeiliaid yn chwarae rhan flaenllaw mewn sawl idiom, meddai.

Wel, doedd yna ddim amdani wedyn ond crafu pen a meddwl am briod-ddulliau Cymraeg sydd yn peri gofid i'r rhai sydd yn poeni am hawliau creaduriaid.

Dyna i chi *mae blas y cyw yn y cawl*, *yn araf deg mae dal iâr* a g*well aderyn mewn llaw na dau mewn llwyn*. Mae'r tri dywediad yn awgrymu mai peth cwbl naturiol ydy' hela a lladd y rhain.

A dyna i chi'r dywediadau sydd yn rhoi darlun angharedig o natur creaduriaid. Onid ydy' *adar o'r unlliw a hed i'r unlle* yn awgrymu mai troseddwyr ydy' rhai adar a *gwyn y gwêl y frân ei chyw* yn awgrymu balchder unllygeidiog? A beth an *na ddeffro'r ci sydd yn cysgu*? Chwarae teg i Mot, faint ohonom ni sydd yn flin os ydan ni'n cael ein deffro o drwmgwsg? A does neb yn gweld bai arnom am hynny.

Dywediad sydd yn awgrymu mai peth naturiol ydy curo ci ydy *ni chŵyn ci er ei daro ag asgwrn*. Dydy hynny ddim yn wleidyddol gywir bellach, nac ydy? Dydy *y cyw a fegir yn uffern, yn uffern y myn fod* ddim yn awgrymu unrhyw awydd yn y cyw i wella'i statws cymdeithasol. Mor wahanol i Sinderela.

A beth am *yr hen geffyl* y mae'n *anodd tynnu cast ohono*? Pe bai rhyw hen ddyn tew mewn côt goch yn eich waldio gyda ffon gan weiddi "Tali ho" oni fyddech chi'n cicio a strancio a chael y myll?

*Mae eisiau ceiliog glân i ganu,* ond mae'n anodd cadw'r hen blu yna'n lân a chitha' yn crafu am fwyd ynghanol y baw heb sôn am gadw trefn ar yr hen ieir yna.

Dydy cymariaethau traddodiadol ychwaith ddim yn ffeind i'n ffrindiau. Druan o'r *mochyn* sy'n enwog am fod *yn dew* a'r *llygoden eglwys* sydd *mor dlawd.* Ac er ei fod o'n greadur hardd mae'r paun ynn enwog am fod yn falch.

Roedd R. Williams Parry eisiau cig y ceiliog ffesant yn rhost amheuthun oherwydd ei glochdar balch a'i drem drahaus. A hynny ar ôl canmol ei bryferthwch ym mhennill cyntaf ei gerdd! Druan o'r hen ffesant.

Tymer y gacynen sydd dan y lach yn *mor wyllt â chacwn*. Oni fyddech chi'n wyllt pe bai rhywun byth a hefyd yn ceisio rhoi swadan i chi gyda chopi o bapur dyddiol? Mae cadno yn ei chael hi hefyd am fod yn *hen lwynog slei* ac yn *hen genau* ac yntau yn greadur bach mor ddiniwed. Ond arhoswch funud. Onid ffrwyth sylwgarwch treiddgar ar hyd y blynyddoedd ydy'r idiomau a'r dywediadau hyn? Dyma'r pethau sydd yn rhoi lliw a chyfoeth i unrhyw iaith. Yn bendant, byddai'r Gymraeg yn rhywbeth moel a di-fflach hebddyn nhw.

Ar bob cyfrif cadwn y perlau hyn yn ein hiaith.

.........................................................
...................................................

Erbyn i chi dderbyn y rhifyn hwn o'r **Bigwn** bydd y Nadolig a Dydd Calan wedi hen fynd a dod, a diolch i'r drefn mae'r dydd yn dechrau ymestyn.

Dyma gyfnod *cam y ceiliog* – idiom arall i chi.

Rydwi'n un o'r bobl hynny sydd yn mwynhau'r adeg hon o'r flwyddyn. Dim ots am eira ac oerfel neu wynt a glaw, mae hi'n oleuach yn y bore a'r prynhawn a'r gwanwyn a'r haf ar y ffordd. Hwre!


**Stan Lyall**




TE YN Y GRUG

**Tŷ Te a Delicatessen**
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk

01745 816576



Jones & Graham

45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH

CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES

Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim

Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg

01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych



Ffôn:01745 812542

DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR



GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

# CLWB PEL-DROED DINBYCH

Yn ddiweddar, agorwyd y Tŷ Clwb newydd a fu'n brosiect gan y Clwb ers mis Awst. Cafwyd ymdrech gymunedol ardderchog wrth i fasnachwyr a chlybiau lleol helpu ddarparu llafur, nwyddau a chyfraniadau am ddim. Croesawodd Shon Powell, Cadeirydd y Clwb, bawb a fuodd yn helpu i'r Noson Agoriadol cyn y gêm elyniaethol yn erbyn y Rhyl ar nos Wener oer.

Cwblhawyd y gwaith i safon hynod o uchel ac ar y waliau mae lluniau yn dangos hanes y Clwb dros y 125 mlynedd ddiwethaf. Ar hyn o bryd, mae gan y Clwb drwydded bar dros dro, ac o fewn amser, bydd y Clwb yn ystyried cael trwydded lawn er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleuster newydd.

Mae'r Clwb yn edrych am wirfoddolwyr i helpu ar ddiwrnodau gêm yn dilyn codi'r adeilad newydd. Os gallwch helpu mewn unrhyw ffordd, cysylltwch ag Iwan Jones (07788627819).

Rhediad cymysg o gemau a gafwyd gan y Tîm Cyntaf yn ddiweddar. Yn gyntaf, gwelwyd buddugoliaeth o 3-1 yn erbyn Holyhead Hotspur mewn gêm llawn digwyddiadau. Fe anafwyd gôl-geidwad Dinbych, Craig Vernon, a bu'n rhaid i'r cefnwr chwith, Lewis Sirrell, gymryd ei le , a pherfformio'n anhygoel. Holyhead aeth ar y blaen gyda chic o'r smotyn wedi i Vernon ffowlio eu hymosodwr nhw, a dyma sut anafodd Vernon ei hun. Munudau wedi i Vernon adael y cae gyda Sam Jones yn dod I'r cae yn ei le, sgoriodd Jones gyda'i gic gyntaf. Daeth y goliau yn ystod yr ail hanner gan Pat Hinchcliffe a Tony Davies a sicrhwyd y tri phwynt i Ddinbych, wedi i ddau o chwaraewyr Holyhead dderbyn cardiau coch hefyd.

Dilynwyd y gêm hon gyda buddugoliaeth arall o 2-0 oddi cartref yn erbyn Bwcle gyda goliau gan Pat Hinchcliffe a Jordan Barrow.

Tîm Cambrain a Chlydach o Gwm Rhondda oedd gwrthwynebwyr Dinbych yn ystod $3^{ydd}$ Rownd Cwpan Cymru. Roedd Dinbych ar y blaen o 1-0 gyda 6 munud yn weddill o'r gêm gyda gôl gan Pat Hinchcliffe, ond



Cadeirydd CPD Dinbych, Shon Powell yn agor y Tŷ Clwb newydd

cafwyd ymdrech ddewr gan yr ymwelwyr wrth iddynt sgorio dwy yn ystod munudau olaf y gêm, siom enfawr i chwaraewyr a chefnogwyr Dinbych.

Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach roedd Dinbych yn gwynebu Rhyl yn Central Park, oedd yn golygu gwynebu cyn hyfforddwr Dinbych a adawodd ym mis Mai 2018 gan fynd a sawl chwaraewr gyda fo. Rhyl a ddaeth i'r brig y noson honno o 2-0 gyda goliau gan ddau gyn-chwaraewr Dinbych, Ben Nash a Kristian Pierce.

Canlyniadau cymysg a gafwyd gan yr Ail Dîm yn ddiweddar gyda thair gêm galed oddi cartref. Colled o 2-1 oedd y gyntaf yn erbyn Bae Colwyn ac Andy Thomas yn sgorio'r unig gôl. Dilynwyd hyn gyda cholled o 2-1 yn erbyn Conwy Borough er i Ddinbych reoli 80% o'r gêm a gôl gan Sion Jones.
Er hynny, gwelwyd gêm y mis i'r tîm ym Mhorthmadog, tîm oedd wedi ennill bob gêm y tymor hwn. Er mai 0 -0 oedd y sgôr, rheolodd Dinbych y gêm ond trueni na gawson nhw gôl i gipio'r gêm.



Tu mewn i'r Tŷ Clwb newydd

Parhau mae ymdrechion Denbigh Development ar waelod y gynghrair wedi iddynt golli tair gêm dros y mis diwethaf - 3-1 yn erbyn Llysfaen, a 3-2 yn erbyn Llanelwy yn y gynghrair, cyn colli 6-1 mewn gêm gwpan yn erbyn Menai Bridge Tigers. Er hynny, mae'r rheolwyr Dan Whitfield ac Aled Douglas yn ffyddiog am flwyddyn well wedi'r Nadolig.
Llongyfarchiadau mawr i Rhys Llwyd, un o chwaraewyr y Clwb, a'i wraig Fflur ar enedigaeth eu mab Celt Llwyd. Pob dymuniad da i chi fel teulu gan bawb yn y Clwb.



Y Tŷ Clwb newydd

# CLWB RYGBI DINBYCH

Roedd y Tîm Cyntaf yn edrych ymlaen yn obeithiol at gêm gartref yn erbyn Yr Wyddgrug, tîm sydd un safle'n is na Dinbych yn y Gynghrair, ond yn anffodus fe ohiriwyd y gêm oherwydd anallu'r ymwelwyr i gael tîm at ei gilydd. Y tîm nesaf i ddod i Ddinbych oedd Nant Conwy, ac yn wahanol iawn i'r disgwyl, roedd y tîm cartref ar y blaen o 12-0 wedi llai na deng munud yn dilyn ceisiau gan Tom Seddon ac Aidyn Jones a throsiad gan Garin Roberts. Ond oherwydd camgymeriadau sylfaenol gan Ddinbych a phrofiad helaeth Nant, yr ymwelwyr gariodd y dydd o 26-12. Chwaraewyd yr ornest leol hir-disgwyliedig ar Gae Ddôl, Rhuthun, gyda'r tîm cartref ar y blaen o 19-0 ymhen dim o amser. Roedd pethau'n edrych yn ddu iawn, ond dangoswyd cymeriad cryf i frwydro'n ôl i 19-10 drwy geisiau gan Gruff Roberts a Rory Tolley, ond sgoriodd Rhuthun drosgais a chic gosb yn y munudau olaf i wneud y gêm yn ddiogel. Wedi colli gêm agoriadol y tymor o un pwynt yn Ninbych, talodd Y Bala'r pwyth yn ôl ar Faes Tegid mewn tywydd dychrynllyd. 27-5 oedd y sgôr terfynol gyda Gruff Roberts yn sgorio cais i Ddinbych yn dilyn rhediad o'i linell 22m ei hun.

Teithiodd yr Ail Dîm i Ynys Môn a cholli o 18-14 mewn gêm hynod agos yn erbyn Tîm Cyntaf Caergybi, gydag Aidyn Jones ac Endaf Waller yn croesi am gais yr un, a dau drosiad gan Jordan Wynne. Yn ôl ar Gaeau Les Phillips, cafwyd gêm agos arall, gyda Thîm Cynta'r Fflint yn ennill o 13-11. Sgoriodd y canolwr Ben Reed holl bwyntiau Dinbych gan sgorio cais a dau gic gosb. Colli fu'r hanes unwaith eto ar Lannau Dyfrdwy yn erbyn Tîm Cyntaf Shotton, gyda'r tîm sydd ar frig yr Adran yn ennill o 43-5 gyda David Roberts yn sgorio cais i Ddinbych.

Er i'r canlyniadau uchod ymddangos yn siomedig dros ben, mae'n bwysig eu gosod yn eu cyd-destun. Hwn yw tymor cynta'r Tîm Cyntaf yn ôl yn Adran 1 ers rhai blynyddoedd, a'r gobaith yw bod yn gystadleuol a dod â nifer o chwaraewyr ifanc drwodd eleni. Mae hyn yn digwydd. Mae'r Ail Dîm yn chwarae yn Adran 3, yn erbyn nifer o dimau cyntaf clybiau eraill, ac wedi cael nifer o ganlyniadau gwych. Wrth i mi sgwennu hwn, maen nhw'n parhau yn y trydydd safle yn yr Adran. Ond yn bwysicach na hyn oll, mae Clwb Rygbi Dinbych yn llwyddo i droi dau brif dîm allan yn gyson ar ddydd Sadwrn, gyda digon o chwaraewyr ar gael i fod ar y fainc i'r ddau dîm – yn wahanol iawn i nifer o glybiau eraill yn y Gogledd.

Profodd yr ymwelwyr o Fae Colwyn yn gryfach na Ieuenctid Dinbych gan ennill o 42-10, and cafwyd gêm llawer mwy cystadleuol yn Y Drenewydd, gyda'r tîm o'r Canolbarth yn ennill o 20-12.

Mae chwaraewyr yr Adran Mini/Iau a'u hyfforddwyr yn parhau i chwarae ac ymarfer, a gweler isod y canlyniadu diweddar a ddaeth i law'r Bigwn.

Cafwyd canlyniad gwych gan y Tîm Dan 8, yn curo Nant Conwy o 17-12, a Tryfan Maclean yn cael ei enwebu'n Chwaraewr yr Wythnos.

Collodd y Tîm Dan 10 eu gêm gyntaf yn erbyn yr un gwrthwynebwyr o 38-14, ond enillwyd yr ail gêm o 20-15.

Llwyddodd y Tîm Dan 14 i guro Nant o 22-12, buddugoliaeth i'w thrysori!

*John Davies*

siop siocled
01745 814864 dinbych
RWAN YN DERBYN ARCHEBION:
PARTION PLANT, NOSWEITHIAU MWYTHAU I'R ARDDEGAU/OEDOLION A BUSNESAU
* Partion Mwythau o £99
* Partion Siocled o £125
* Nosweithiau i Oedolion a Busnesau o £150
I sicrhau dyddiad i'ch parti ffoniwch 01745 814864
neu ebostiwch mark@denbighchocolateshop.com
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

JWilliams BLAS DA
EICH CIGYDD LLEOL
124 Stryd y Dyffryn
Dinbych Ll16 3BS
01745 812585

Guthrie Jones a Jones Cyfreithwyr
Osian Roberts LL.B , Nansi Thirsk LL.B,
Dylan Edwards B.A.,LL.B
29 Ffordd Rhuthun, Dinbych LL16 3EH
Ffôn: 01745 814 817 dinbych@guthriejj.co.uk
GWASANAETH CYFREITHIOL CYFLAWN YN Y GYMRAEG
yn y Swyddfa neu Gartref

# Noson Goleuadau Dinbych



Gweithio yn groto Santa - Tywysoges Ungorn Ellie Roberts, cynorthwywr Finnlay Peters, pwdin Bethan Faurnier a Santa Alan Peters



Yn cynnau goleuadau'r dref roedd Simon Wynne(Grandma), Y Maer Catherine Jones a'r Faeres Nicola Mcintyre



Yn diddori'r plant oedd Syrcas Cimera - Lauren ac Alex



Roedd cymaint o blant eisiau gweld santa fel bod ganddo gymorth Erfyl.




Cwmni sydd yn mynd o nerth i nerth ydyw Cwmni Coffi Owen ac Edwards,Dinbych.

**Hysbyseb Gwasg Helygain**

# Diwrnod Rowlio Casgenau Sant Stephan



John Selers yn sylwebu



Gareth Owen, Llannefydd
buddigol adran y dynion



Maer,Cyng. Catherine Jones yn cyflwyno cwpan buddigol adran y merched i Tina o Henllan




Maldwyn Williams yn arddangos hen Landrover



Mam a'i merched yn cystadlu yn rholio casgen mewn tîm




Aelwyn yn arddangos hen Furguson 35x





Kevin yn ei wisg Randolf

***GOLYGYDD Chwefror:***
***Ceredig Gwynn***

Cyhoeddwyd gan: Gymdeithas y Bigwn Cysodwyd gan Hywel Evans ac Argraffwyd gan Wasg Helygain